

Cofion a Chyfarchion

Oni chawn arweiniad cyfreithiol gwahanol ac oherwydd y ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ar Fai 25ain (gweler yr adran Diogelu Data isod), ni fyddwn yn cynnwys enwau pobl na'u hamgylchiadau yn Llais Bro Aled o hyn allan er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol ein haelodau. Er hynny, byddwn yn parhau i gofio yn ein gweddiâu y cleifion a'r rhai sy'n galaru am anwyliaid gan hyderu y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt, ac yn llawenhau gyda'r rhai sy'n dathlu achlysuron hapus.

Diogelu Data (GDPR)

Daeth cyfraith newydd yn weithredol ar Fai 25ain eleni fydd yn rheoli'r defnydd a wneir o ddata neu wybodaeth ac a fydd yn effeithio ar fudiadau a sefydliadau o bob math. Yr egwyddor sylfaenol o fewn y gyfraith yw nad oes hawl gan sefydliadau, sy'n cynnwys eglwysi Cristnogol, i rannu gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n perthyn iddynt. Mae'r wybodaeth i'w chadw a'i diogelu ymhob ffordd bosibl ac i'w defnyddio yn unig i ddibenion gweinyddu'r elusen yn effeithiol.

Mewn perthynas â'r Ofalaeth hon, bydd hyn yn effeithio ar sawl maes, e.e. Llais Bro Aled, Adroddiadau Blynyddol yr eglwysi, dibenion bugeilio, e-bostio a'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw ymholiadau i swyddog o fewn yr eglwys am enw, cyfeiriad, rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost unrhyw un sy'n aelod o'r eglwys.

Mae'r gyfraith newydd yn anorfod oherwydd y newid diwylliant a'r byd yr ydan ni'n byw ynddo lle mae gwybodaeth, yn anffodus, wedi ac yn parhau i gael ei gam-ddefnyddio. Mae'n bwysig felly ein bod yn ymwybodol ac yn ofalus nad ydan ni'n rhannu nac yn defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol heb ganiatâd.

Felly, os nad ydych wedi neu yn dewis ymateb i'r ebost a anfonwyd i'r rhai sy'n derbyn Llais Bro Aled yn electroneg, ni fyddwch yn derbyn unrhyw wybodaeth yn electroneg gan yr Ofalaeth o hyn allan. Wrth gwrs, mae croeso i unrhyw un – cyn belled â'u bod yn rhoi'r caniatâd priodol – ofyn am gael eu hychwanegu i'r rhestr pobl sydd am dderbyn gwybodaeth trwy anfon ebost i eglwysibroaled.com.

Darllenid Wythnos Nesaf

Exodus 29:45-46 (BCND tud.78 / BCN tud.71)

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw yn effeithiol ac yn gyfoes trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27^{ain} Mai 2018

Darllenid y Dydd

2 Timotheus 4:16-18

(BCND tud.236 / BCN tud.216)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i oedfaon olaf mis Mai. Gweddiwn y byddwn unwaith yn rhagor yn sylweddoli mawredd ein Duw sy'n Dad, Mab ac Ysbryd Glân gan brofi o'i gynhaliaeth a'i arweiniad ar gychwyn wythnos arall. Cofiw'n Salm 96:4 Beibl.net - 'Mae'r ARGWLWYDD yn Dduw mawr ac yn haeddu ei foli!'

Fel y mae nifer ohonoch wedi clywed dwi'n siŵr, byddwn yn gweld cryn newid o fis Medi ymlaen wrth i dymor Gwion fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol ddod i ben. Bwriad Gwion yw cychwyn ar gwrs hyfforddiant dysgu ym Mangor a dymunwn fendith Duw arno ef a Sarah dros y misoedd nesaf, a byddwn yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio a chyd-addoli gyda hwy yma ym Mro Aled. Rydw i, Mair, a ninnau fel Bro gyfan yn eithriadol o werthfawrogol i Gwion am y cyfan y mae wedi ei wneud yn ein plith dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae ei gefnogaeth a'i gyfraniad at ein gweinidogaeth fel tîm wedi bod yn amhrisiadwy, a byddwn yn naturiol yn gweld colli ei faich dros rannu'r Efengyl hefo pobl o bob oed, ei hiwmor a'i gyfeillgarwch cynnes, a'i ffyddlondeb wrth ddod â Gair Duw yn fyw i ni mewn cyd-destunau gwahanol. Cawn gyfle i ddiolch fel gofalaeth i Gwion am ei lafur ar ddiwedd mis Gorffennaf a cheir mwy o fanylion am hynny maes o law.

Oherwydd y newid anorfod i'r tîm gweinidogaethol, byddwn fel blaenoriaid a diaconiaid y Fro yn trafod ac yn gweddio ynglŷn â'r ffordd orau i weinidogaethu i'r dyfodol gan geisio arweiniad yr Arglwydd yn hyn i gyd. Fel mewn cymaint o agweddau o'n bywyd, mae'n debyg y bydd newidiadau sylweddol yn dod i'n rhan fel eglwysi yn y blynyddoedd nesaf, ond nid oes angen ofni'r newidiadau hyn gan y gallwn ddibynnu ar Dduw sy'n ffyddlon trwy'r cyfan. Yn ein darllenid ar y cyd o Ail Lythyr Timotheus, mae'r Apostol Paul yn anfon cyfarchion personol at gyfeillion wrth weld y diwedd yn dod yn fuan (4:6). Ond sylwch beth yw ei bwyslais: mae Duw wedi sefyll gyda mi yn y gorffennol gan fy nerthu (ad. 17), a bydd yn fy ngwaredu eto gan fy nwyn 'yn ddiogel i'w deyrnas nefol' (ad. 18). Oherwydd ei brofiad o gynhaliaeth a nerth Duw yn ei alluogi i rannu'r newyddion da am Iesu i'r holl Genhedloedd, mae Paul yn hyderus i'r dyfodol na fyddai ei Waredwr yn ei siomi er gwaetha'r ffaith iddo fod o flaen ei well (ad. 16) a'i fod yn ysgrifennu o'r carchar.

Ac fel Paul, rydym ni ym Mro Aled am wynebu'r dyfodol trwy ymddiried yng ngallu Duw, a chan barhau i gyhoeddi Efengyl ein Gwaredwr sef y 'ffordd rymus mae Duw'n gweithio i achub pawb sy'n credu.' (Rhufeiniaid 1:16 Beibl.net) Disgwylw'n mewn ffydd i weld beth fydd y camau nesaf gan lawenhau fod gan bawb sydd wedi ymateb i alwad Crist etifeddiaeth dragwyddol. (Hebreaid 9:15)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 27^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30 Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 a'r Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Rhagrybudd ➤ Yn ystod oedfa'r prynhawn yng Nghefn Meiriadog ar Fehefin 10^{fed}, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 27^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 3^{ydd} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 a chynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain hefyd am 10.00.

I ddod

- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 10fed yng Nghapel Llandegla am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2017-18. Arweinydd: Dafydd Watson. Croeso i bawb.
- **CWRDD CHWARTER CYFUNDEB GORLEWIN DINBYCH A FFLINT** yn cyfarfod nos Iau, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, byddwn yn croesawu y Parch. Mererid Mair Williams a'i phriod Richard i sôn am Apêl Madagascar yr Undeb a lansir yn ystod cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn Aberaeron.
- **'DISGLAIR'** – Penwythnos i ferched o bob oed yn y Bala ar Mehefin 15fed-16eg. Siaradwyr: Sian Wyn Rees, Cath Woolridge ac Ali Roberts. Cofrestrwch ar-lein ar wefan colegybala.org neu cysylltwch â'r Coleg i dderbyn copi papur o'r ffurflen: 01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk.
- **HAFAN** - Ychydig ddyddiau o ymlacio, cymdeithas a gweinidogaeth y Parch. Geraint Morse ym Mryn-y-Groes, Y Bala dydd Llun i fore Sadwrn, Mehefin 18fed – 23ain. £270 yn cynnwys lluniaeth llawn a thrip (£30 ychwanegol i warantu ystafell sengl). Mae modd archebu ar-lein trwy fynd i wefan www.mudiad-efengylaidd.org/gwyliauhafan neu ffoniwch (01678) 520752 i gael ffurflen.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
- ⇒ **Cwrs Ieuenticid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
 - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
 - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain
- Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.